Senedd Cymru
**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

# Canllaw i fusnes cynnar y Cyfarfod Llawn ar ôl etholiad mis Mai 2026

Mai 2026

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

# Canllaw i fusnes cynnar y Cyfarfod Llawn ar ôl etholiad mis Mai 2026

Mae'r canllaw hwn yn ymwneud yn benodol â'r Cyfarfodydd Llawn sy'n dilyn etholiad y Senedd, cyn i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth wneud y datganiad a chyhoeddiad busnes cyntaf.

Mae'n cynnwys gweithdrefnau ar gyfer:

- cyflwyno cwestiynau yn y cyfnod yn syth ar ôl etholiad y Senedd
- y Cyfarfod Llawn cyntaf ar ôl etholiad y Senedd
- ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd
- enwebu'r Prif Weinidog
- y busnes y gellir ei drafod yn y Cyfarfod Llawn cyntaf ac yn y Cyfarfodydd Llawn dilynol
- y busnes yn dilyn penodi'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth.

# Cynnwys

A. Trefniadau ar gyfer cyflwyno cwestiynau yn dilyn etholiad y Senedd ........ 5

B. Hysbysiad o Gyfarfodydd Llawn cynnar ........ 6

C. Y Cyfarfod Llawn cyntaf ar ôl etholiad y Senedd ........ 7

Ethol y Llywydd ........ 7

Ethol y Dirprwy Lywydd cyntaf ........ 9

Trefniadau ar gyfer cynnal pleidlais gyfrinachol ........ 9

D. Enwebu’r Prif Weinidog ........ 12

Galw cofrestr ........ 13

Canlyniad yr enwebiad ........ 13

E. Busnes y gellir ei gynnal mewn Cyfarfod Llawn cyn sefydlu'r Pwyllgor Busnes ........ 14

F. Busnes cynnar dilynol ........ 15

Penodi Aelodau i'r Pwyllgor Busnes ........ 15

Penodi Comisiynwyr y Senedd ........ 15

Penodi Cwnsler Cyffredinol ........ 16

Pwyllgorau’r Senedd ........ 16

Ethol ail Ddirprwy Lywydd ........ 17

# A. Trefniadau ar gyfer cyflwyno cwestiynau yn dilyn etholiad y Senedd

**1.** Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn agor ar ôl y Cyfarfod Llawn cyntaf ar gyfer cwestiynau ysgrifenedig, cynigion, datganiadau barn, a gosod dogfennau. Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn hysbysu'r Aelodau o amseroedd agor unwaith y bydd dyddiad y cyfarfod cyntaf yn hysbys.

**2.** Yn unol ag adran 46 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), bydd y Prif Weinidog yn aros yn ei swydd nes y penodir y Prif Weinidog newydd. Caiff pob cwestiwn ysgrifenedig a gyflwynir i'r Llywodraeth ar ôl yr etholiad ei gyflwyno i'w ateb gan y Prif Weinidog nes y penodir Gweinidogion Cymru. Y dyddiad olaf ar gyfer ateb cwestiynau ysgrifenedig fydd pum niwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu cyflwyno.

**3.** I gael rhagor o wybodaeth, dylech ddarllen y Canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd (adran 2 ac atodiadau 1 a 2) neu cysylltwch â'r Swyddfa Gyflwyno: swyddfagyflwyno@senedd.cymru neu Aled Jones (estyniad 6384 / Aled.Jones@senedd.cymru).

# B. Hysbysiad o Gyfarfodydd Llawn cynnar

**4.** Bydd dyddiad ac amser y Cyfarfod Llawn cyntaf yn cael ei bennu gan y Llywydd presennol (sy'n parhau i fod yn ei swydd hyd nes bod Llywydd newydd yn cael ei ethol) mewn ymgynghoriad â'r grwpiau gwleidyddol (Rheol Sefydlog 12.7). Os bydd y Llywydd presennol yn amharod neu’n methu â gwneud hynny, Clerc y Senedd (y Clerc) fydd yn pennu’r dyddiad a’r amser.

**5.** Y Llywydd newydd fydd yn pennu dyddiad ac amser pob Cyfarfod Llawn wedi hynny, mewn ymgynghoriad â’r grwpiau gwleidyddol, nes i’r Pwyllgor Busnes gael ei sefydlu (a nes i’r Datganiad a Chyhoeddiad Busnes cyntaf gael ei roi yn y Cyfarfod Llawn gan y Gweinidog sy’n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth).

**6.** Rhaid i’r Clerc hysbysu pob Aelod o’r dyddiad a’r amser o leiaf 24 awr cyn pob cyfarfod (Rheol Sefydlog 12.9). Gwneir hyn yn uniongyrchol drwy anfon e-bost; drwy grwpiau’r pleidiau; drwy hysbysiadau ar y fewnrwyd a thrwy gyhoeddi’r agenda ar y rhyngrwyd.

# C. Y Cyfarfod Llawn cyntaf ar ôl etholiad y Senedd

**7.** Yn ei chyfarfod cyntaf, rhaid i'r Senedd ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd Cyntaf (Rheol Sefydlog 6.1).

## Ethol y Llywydd

**8.** Nodir y gweithdrefnau ar gyfer ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn Rheol Sefydlog 6. Caiff Aelod nad yw eto wedi tyngu'r llw teyrngarwch (nac wedi gwneud y cadarnhad cyfatebol) gymryd rhan yn y trafodion ar gyfer ethol y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd ond nid unrhyw drafodion eraill yn y Senedd (adran 23 o Ddeddf 2026). Y Llywydd a etholir yn gyntaf, ac yna etholir y Dirprwy Lywydd Cyntaf.

**9.** Mae'r gweithdrefnau ar gyfer ethol y Llywydd a Dirprwy Lywydd yn union yr un fath ac fe'u hamlinellir dros y dudalen:

Bydd y Cadeirydd yn galw am enwebiadau.

Rhaid i enwebiad gael ei eilio gan Aelod nad yw'n perthyn i'r un grŵp gwleidyddol â'r Aelod sy'n enwebu.

Yn yr achos annhebygol lle mae'n debygol na enwebir unrhyw Aelod y ddilys, bydd y Cadeirydd yn gohirio'r cyfarfod. Pan fydd y cyfarfod yn ailddechrau, bydd y Cadeirydd yn galw eto am enwebiadau. Os nad oes ymgeiswyr o hyd sy'n cael cefnogaeth o'r tu allan i'r un grŵp gwleidyddol, bydd y Cadeirydd yn derbyn enwebiadau a gaiff eu heilio gan Aelodau o'r un grŵp gwleidyddol â'r Aelod sy'n enwebu.

Os mai dim ond un enwebiad sydd, bydd y Cadeirydd yn cynnig yr etholir yr Aelod a enwebir.

Os bydd gwrthwynebiad, cynhelir pleidlais gyfrinachol.

Os na fydd gwrthwynebiad, etholir yr Aelod.

Os bydd mwy nag un enwebiad, cynhelir pleidlais gyfrinachol.

Os enwebir dau Aelod, etholir yr Aelod sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau a fwriwyd yn y bleidlais.

Os enwebir mwy na dau Aelod, etholir yr Aelod sydd â mwy o bleidleisiau na'r cyfanswm ar gyfer yr holl ymgeiswyr eraill.

**10.** Y Cadeirydd fydd yn cyhoeddi canlyniad yr etholiad i'r Senedd. Bydd yr Aelod a etholir i fod yn Llywydd yn cadeirio unrhyw eitemau o fusnes sy'n weddill ar agenda'r Cyfarfod Llawn, gan gynnwys ethol y Dirprwy Lywydd cyntaf. Os nad yw'r Aelod a etholir yn Llywydd wedi cymryd y llw eto, neu heb wneud y cadarnhad cyfatebol, rhaid gwneud hynny cyn mynd i'r gadair.

## Ethol y Dirprwy Lywydd cyntaf

**11.** Bydd y broses o ethol y Dirprwy Lywydd cyntaf yn dilyn yn syth ar ôl i'r Llywydd a etholir fynd i'r gadair. Yn unol â Rheol Sefydlog 6.12, rhaid i'r Senedd beidio ag ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd o'r canlynol:

- yr un grŵp gwleidyddol;
- grwpiau gwleidyddol gwahanol lle mae gan y ddau ohonynt rôl weithredol; neu
- grwpiau gwleidyddol gwahanol lle nad oes gan yr un ohonynt rôl weithredol.

**12.** Gall unrhyw Aelod wneud cynnig i ddatgymhwyso'r rheol hon, cyn ethol y Dirprwy Lywydd (Rheol Sefydlog 6.13). Caniateir gwneud y cynnig heb hysbysiad, ond rhaid i o leiaf ddau o bob tri o'r Aelodau sy'n pleidleisio gefnogi'r cynnig hwn.

**13.** Os yw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd etholedig wedi hynny yn dod o fewn un o'r categorïau a restrir ym mharagraff 10 yn ystod y Senedd (ac nad yw'r naill na'r llall yn ymddiswyddo) gall unrhyw Aelod wneud cynnig yn y Cyfarfod Llawn nesaf y dylai'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd(ion) aros yn eu swyddi. Unwaith eto, rhaid i o leiaf ddau o bob tri o'r Aelodau sy'n pleidleisio gefnogi'r cynnig hwn (Rheol Sefydlog 6.14). Os na wneir, neu os na dderbynnir, cynnig o'r fath, rhaid i'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd ymddiswyddo.

## Trefniadau ar gyfer cynnal pleidlais gyfrinachol

**14.** Os bydd angen cynnal pleidlais gyfrinachol, bydd y Cadeirydd yn gohirio'r cyfarfod (am amser sydd i'w bennu gan y Cadeirydd). Fel rheol, cynhelir pleidleisiau cyfrinachol yn bersonol yn adeilad y Senedd. Fodd bynnag, gall y Llywydd benderfynu y cynhelir y cyfarfod ar ffurf hybrid ac y bydd yr Aelodau'n gallu bwrw eu pleidleisiau'n electronig. Bydd aelodau'n cael gwybod beth fydd y drefn. Bydd trefniadau'r bleidlais gyfrinachol, ym mhob un o'r senarios, fel a ganlyn:

a. Pleidlais gyfrinachol ar gyfer yr Aelodau sy'n bresennol:

- Cynhelir y bleidlais gyfrinachol mewn ystafell yn y Senedd neu yn Nhŷ Hywel. Bydd y tywyswyr ar gael i roi cyfarwyddiadau i'r Aelodau.
- Bydd ffurflenni pleidleisio yn cael eu hargraffu pan fydd enwau'r ymgeiswyr yn hysbys. Defnyddir lliw gwahanol ar gyfer pob cylch pleidleisio (os oes angen).
- Bydd yr Aelodau'n cael eu papurau pleidleisio wrth fynd i mewn i'r ystafell. Caiff eu henwau eu gwirio ar restr gan swyddogion Ysgrifenyddiaeth y Siambr.
- Bydd yr Aelodau'n pleidleisio mewn bwth pleidleisio. Caiff papurau pleidleisio eu rhoi mewn blwch pleidleisio.
- Bydd y pleidleisio'n para tan fydd pob Aelod wedi pleidleisio neu am 30 munud (pa un bynnag a ddaw gyntaf).
- Clerc y Senedd fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r broses bleidleisio a'r broses o gyfrif y pleidleisiau.

b. Pleidlais gyfrinachol ar gyfer Aelodau sy'n pleidleisio'n electronig:

- Bydd ffurflenni pleidleisio electronig yn cael eu cwblhau pan fydd enwau'r ymgeiswyr yn hysbys.
- Dylai Aelodau na fyddant yn bresennol ar yr ystâd roi gwybod i Ysgrifenyddiaeth y Siambr cyn gynted â phosibl fel y gallant gael mynediad i'r bleidlais gyfrinachol drwy e-bost a anfonir i'w cyfeiriad e-bost a gawsant gan Gomisiwn y Senedd.
- Bydd linc a gynhwysir yn yr e-bost yn eu cyfeirio at bapur pleidleisio electronig; bydd mynediad iddo yn gyfyngedig i Aelodau sydd wedi nodi eu bod am bleidleisio'n electronig yn unig. Bydd staff TGCh ar gael i helpu unrhyw Aelodau sy'n cael anawsterau wrth bleidleisio.
- Bydd yr Aelodau'n cwblhau'r papur pleidleisio. Dim ond eu dewis ymgeisydd fydd yn cael ei gofnodi; ni fydd y system bleidleisio electronig yn cofnodi enw na chyfeiriad e-bost yr Aelod a gwblhaodd y papur pleidleisio.

- Bydd y pleidleisio’n para tan fydd pob Aelod wedi pleidleisio neu am 30 munud (pa un bynnag a ddaw gyntaf).
- Clerc y Senedd fydd yn gyfrifol am oruchwylio’r broses o ddosbarthu ffurflenni cofrestru a phapurau pleidleisio. Bydd y system bleidleisio electronig yn dangos i'r Clerc gyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd.

**15.** Os mai dim ond un enwebiad sydd ac nad oes gwrthwynebiad, etholir yr Aelod a enwebwyd. Os oes gwrthwynebiad, gofynnir i'r Aelodau bleidleisio o blaid neu yn erbyn yr Aelod a enwebwyd. Os bydd sawl enwebiad, gofynnir i’r Aelodau ddewis yr ymgeisydd y maent yn ei ffafrio (neu ymatal).

**16.** Os enwebir dau Aelod a'r naill a'r llall wedi cael nifer gyfartal o bleidleisiau yn y bleidlais gyfrinachol, cynhelir rhagor o bleidleisiau cyfrinachol nes i un ymgeisydd sicrhau nifer uwch o’r pleidleisiau a fwriwyd yn y balot.


**17.** Os enwebir mwy na dau Aelod a dim Aelod yn cael mwy o bleidleisiau na chyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer yr holl ymgeiswyr eraill, tynnir yr ymgeisydd (neu'r ymgeiswyr) sydd wedi cael y nifer lleiaf o bleidleisiau o’r broses. Cynhelir rhagor o bleidleisiau cyfrinachol nes i un ymgeisydd gael mwy o bleidleisiau na chyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer yr holl ymgeiswyr eraill.

# D. Enwebu’r Prif Weinidog

**18.** Rhaid i'r Senedd enwebu Aelod i'w benodi'n Brif Weinidog cyn pen 28 diwrnod ar ôl etholiad y Senedd (h.y. ar neu cyn 3 Mehefin 2026) (adran 47 o Ddeddf 2026). Nodir y weithdrefn ar gyfer enwebu'r Prif Weinidog yn Rheol Sefydlog 8.

**19.** Gellir gwneud enwebiadau ar gyfer y Prif Weinidog yn ystod y Cyfarfod Llawn cyntaf ar ôl etholiad neu mewn unrhyw Gyfarfod Llawn dilynol cyn sefydlu'r Pwyllgor Busnes, yn amodol ar gytundeb y Senedd (Rheol Sefydlog 12.11). Bydd y Llywydd yn gwahodd y Senedd i gytuno y caiff enwebiadau eu gwneud. Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, gelwir pleidlais electronig. Bydd trafodion enwebu yn digwydd dim ond os bydd mwyafrif yr Aelodau sy'n pleidleisio yn cytuno â hynny.

**20.** Amlinellir y broses ar gyfer enwebu'r Prif Weinidog isod:



## Galw cofrestr

**21.** Os bydd angen galw cofrestr, bydd y Llywydd yn gofyn i bob un o'r Aelodau sy'n bresennol, yn nhrefn y wyddor, ddatgan enw'r ymgeisydd y maent yn ei ffafrio. Gall Aelodau ymatal. Ni chaniateir i'r Llywydd na'r Dirprwy Lywydd bleidleisio.

**22.** Os bydd dau Aelod wedi'u henwebu (neu os bydd dau ymgeisydd ar ôl wedi i'r gweddill gael eu tynnu o'r broses), a bod canlyniadau'r broses galw cofrestr yn gyfartal, bydd pleidlais drwy alw cofrestr yn digwydd eto (oni bai bod Aelod yn tynnu yn ôl). Caiff y Llywydd ohirio'r cyfarfod ar unrhyw adeg os yw'n credu bod hynny'n briodol.

**23.** Os bydd mwy na dau Aelod wedi'u henwebu ac os na fydd unrhyw Aelod yn cael mwy o bleidleisiau na chyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer yr holl ymgeiswyr eraill, tynnir yr ymgeisydd â'r nifer leiaf o bleidleisiau o'r broses. Cynhelir pleidleisiau pellach drwy alw'r gofrestr nes y bydd un ymgeisydd yn cael mwy o bleidleisiau na chyfanswm nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer yr holl ymgeiswyr eraill.

## Canlyniad yr enwebiad

**24.** Y Llywydd fydd yn cyhoeddi'r canlyniad i'r Senedd. Y Llywydd fydd yn argymell i'w Fawrhydi y dylid penodi'r Aelod a enwebir gan y Senedd yn Brif Weinidog.

**25.** Efallai y bydd y sawl a enwebir i'w penodi'n Brif Weinidog yn dymuno traddodi araith yn syth ar ôl yr enwebiad.

# E. Busnes y gellir ei gynnal mewn Cyfarfod Llawn cyn sefydlu'r Pwyllgor Busnes

**26.** Yn unol â Rheol Sefydlog 12.10, y math o fusnes y gellir ei gynnal yn y Cyfarfod Llawn cynnar hyn yw busnes y gellir ei gymryd heb rybudd o dan Reol Sefydlog 12.16 neu unrhyw fusnes y cytunir arno gan y Senedd.

**27.** Nid yw’r cyfnodau hysbysu arferol ar gyfer cyflwyno cynigion (o leiaf bum niwrnod gwaith cyn iddynt gael eu trafod) a gwelliannau (o leiaf dri diwrnod gwaith cyn trafod y cynnig) yn berthnasol i unrhyw gynigion sydd i’w trafod yn y sesiynau hyn o’r Cyfarfod Llawn (Rheolau Sefydlog 12.20 a 12.22).

# F. Busnes cynnar dilynol

## Penodi Aelodau i'r Pwyllgor Busnes

**28.** Ar ôl i'r Prif Weinidog benodi Gweinidog yn gyfrifol am fusnes y llywodraeth, rhaid i'r Gweinidog, cyn gynted ag y bo modd, gyflwyno cynnig i benodi Aelodau i'r Pwyllgor Busnes yn unol â Rheol Sefydlog 11.3. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y Canllaw i'r Pwyllgor Busnes.

**29.** Rhaid i'r aelodaeth gynnwys y Llywydd (fel Cadeirydd) ac un Aelod a enwebir gan bob grŵp gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd. Gall pump neu fwy o Aelodau, nad ydynt yn aelodau o grŵp gwleidyddol, ffurfio grwpiad at ddibenion enwebu un o'i Aelodau i gael ei benodi i'r Pwyllgor Busnes. Rhaid i'r cynnig i benodi Aelodau i'r Pwyllgor Busnes gael ei gefnogi gan o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio.

**30.** Bydd trefniant busnes wythnosol rheolaidd yn cychwyn gyda'r Datganiad a Chyhoeddiad Busnes cyntaf a wneir gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y Canllaw i'r Cyfarfod Llawn.

## Penodi Comisiynwyr y Senedd

**31.** Rhaid penodi Comisiynwyr y Senedd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl yr etholiad (Rheol Sefydlog 7.1). Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd (ex officio) a phedwar Aelod arall (adran 27 o Ddeddf 2006).

**32.** Rhaid i'r cynnig, a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes, gynnig enwau'r pedwar Aelod. I'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, dylai pob Aelod (ar wahân i'r Llywydd) fod yn perthyn i grŵp gwleidyddol gwahanol.

**33.** Os oes pedwar neu fwy o grwpiau gwleidyddol, rhaid i'r pedwar grŵp mwyaf hysbysu'r Pwyllgor Busnes pa Aelod o'u grwpiau a gaiff ei benodi i fod yn aelod o'r Comisiwn. Os oes llai na phedwar grŵp gwleidyddol, y Pwyllgor Busnes fydd yn penderfynu ar enw(au) unrhyw Aelod(au) ychwanegol. Os bydd gan ddau neu fwy o grwpiau gwleidyddol yr un nifer o aelodau, rhaid i'r Llywydd benderfynu pa un ohonynt sydd i'w ystyried fel yr un mwyaf, gan ystyried lefel y gefnogaeth etholiadol sydd gan bob un o'r grwpiau gwleidyddol dan sylw.

## Penodi Cwnsler Cyffredinol

**34.** Rhaid i'r Senedd gytuno ar argymhelliad y Prif Weinidog i'w Fawrhydi o ran y sawl a benodir yn Gwnsler Cyffredinol (Rheol Sefydlog 9.1). Nid oes angen i'r sawl a argymhellir i'w benodi'n Gwnsler Cyffredinol fod yn Aelod o'r Senedd. Rhaid i'r Prif Weinidog gyflwyno a gwneud y cynnig yn y Cyfarfod Llawn; ni chaniateir gwelliannau.

**35.** Gwahoddir y Senedd i dderbyn y cynnig. Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, gelwir pleidlais electronig. Mae angen mwyafrif o'r Aelodau hynny sy'n pleidleisio i gytuno i'r enwebiad.

## Pwyllgorau'r Senedd

**36.** Cyn gynted ag y bo modd ar ôl etholiad y Senedd, rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyflwyno cynnig neu gynigion yn awgrymu enwau a chylch gorchwyl y pwyllgorau, (Rheol Sefydlog 16.2). Wrth wneud hynny, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau:

- bod pob maes cyfrifoldeb y llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig yn destun gwaith craffu gan bwyllgor neu bwyllgorau;
- bod pob mater sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol yn destun gwaith craffu gan bwyllgor neu bwyllgorau; a
- lle bo hynny'n rhesymol ymarferol, fod cydbwysedd cyffredinol rhwng cyflawni'r cyfrifoldebau i:

i. archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi'r llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus cysylltiedig; ac

ii. archwilio deddfwriaeth.

**37.** Pan fydd y pwyllgorau wedi'u sefydlu, rhaid i'r Senedd ystyried cynnig (neu gynigion) a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes i gytuno ar ddyrannu cadeiryddion i grwpiau (Rheol Sefydlog 17).

**38.** Wrth gyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 17.2A i ddyrannu cadeiryddiaeth pwyllgorau i grwpiau gwleidyddol, caiff y Pwyllgor Busnes hefyd gyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 17A.6. i nodi pa bwyllgorau sy'n gymwys i gael enwebiadau ar gyfer ymgeiswyr sy'n dymuno rhannu swydd cadeirydd pwyllgor. Rhaid i'r

Pwyllgor Busnes sicrhau nad oes mwy na thri phwyllgor yn gymwys i ddau Aelod gael eu henwebu neu eu penodi'n gadeiryddion sy'n rhannu swydd ar unrhyw un adeg.

Mae rhagor o fanylion ynghylch y broses enwebu ac ethol cadeiryddion sy'n rhannu'r swydd wedi'u hamlinellu yn y Canllawiau ar y Modd Priodol o Gynnal Busnes y Senedd.

**39.** Ar ôl cytuno ar ddyraniad y cadeiryddiaethau, bydd y Senedd yn symud ymlaen i ethol y cadeiryddion. Y Llywydd fydd yn gwahodd enwebiadau; ar gyfer pob cadeiryddiaeth, dim ond Aelodau o'r grŵp gwleidyddol sydd wedi'i ddyrannu i'r gadeiryddiaeth honno y gellir eu henwebu.

**40.** Os mai un enwebiad yn unig a geir, rhaid i'r Llywydd gynnig yr etholir yr Aelod a enwebir yn gadeirydd y pwyllgor. Os gwrthwynebir hynny, neu os ceir dau neu ragor o enwebiadau, rhaid i'r Llywydd drefnu bod etholiad yn cael ei gynnal drwy bleidlais gyfrinachol. Bydd manylion pellach am ethol cadeiryddion pwyllgorau yn cael eu cylchredeg cyn y Cyfarfod Llawn perthnasol.

**41.** Ar ôl i gadeiryddion gael eu hethol, bydd y Pwyllgor Busnes yn cyflwyno cynigion sy'n cynnig gweddill aelodaeth y pwyllgorau.

## Ethol ail Ddirprwy Lywydd

**42.** Mae ethol ail Ddirprwy Lywydd yn ddewisol ac, os oes angen, gall ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod tymor y Senedd. Byddai etholiad o'r fath yn digwydd mewn cyfarfod diweddarach nag etholiad y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf ac felly ni fyddai'n digwydd yng nghyfarfod cyntaf Senedd newydd.

**43.** O dan Reol Sefydlog 6.14A, caiff y Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, gynnig bod y Senedd yn cytuno i ethol ail Ddirprwy Lywydd. Unwaith y gwneir penderfyniad gan y Senedd i ethol ail Ddirprwy Lywydd, dylid cynnal yr etholiad yn unol â'r broses bleidlais gyfrinachol a ddefnyddir ar gyfer ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd (fel yr amlinellir yn yr adran 'Trefniadau pleidlais gyfrinachol' uchod ac fel y nodir yn Rheolau Sefydlog 6.6 i 6.10B).

**44.** Gall cynnig o dan Reol Sefydlog 6.14A nodi y bydd yr ail Ddirprwy yn dal y swydd tan ddyddiad a nodir yn y cynnig. Os nad yw cynnig o dan Reol Sefydlog 6.14A yn nodi dyddiad, bydd yr ail Ddirprwy yn peidio â dal y swydd pan ddiddymir y Senedd.

**45.** Yn unol â Rheol Sefydlog 6.14D[1], rhaid i'r Senedd beidio ag ethol ail Ddirprwy Lywydd sy'n perthyn i'r canlynol:

(i) y un grŵp gwleidyddol â'r Llywydd na'r Dirprwy Lywydd cyntaf;

(ii) grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol os yw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf yn perthyn i grwpiau gwleidyddol sydd â rôl weithredol, neu

(iii) grŵp gwleidyddol sydd heb rôl weithredol os yw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf yn perthyn i grwpiau gwleidyddol sydd heb rôl weithredol.

[1] Gellir datgymhwyso'r Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad gan y Senedd (os oes ganddi gefnogaeth dwy ran o dair o'r rhai sy'n pleidleisio, os pleidleisir arni).